
# FFURFLEN LEFI 2025

## SUT I GYFRIFO EICH BIL CYFLOGAU




Mae Lefi CITB yn seiliedig ar gyfanswm eich bil cyflogau am y flwyddyn ac mae'n cynnwys unigolion ar y gyflogres ac is-gontractwyr Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) y byddwch yn gwneud didyniad CIS ganddynt.

I gyfrifo cyfanswm eich bil cyflogau ar gyfer Ffurflen Lefi 2025,
Bydd angen y canlynol arnoch ar gyfer blwyddyn dreth 2024 i 2025
(6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025):

- Cofnodion cyflogres
- Ffurflenni CThEF CIS300 neu ar-lein misol
- Cyfeirlyfr prynu

Sganiwch y cod QR am fideo canllaw






I gael help i lenwi eich Ffurflen Lefi, ffoniwch 0344 994 4455 neu danfonwch e-bost at levy.grant@citb.co.uk

citb

# Taliadau i gyflogeion, gan gynnwys cyfarwyddwyr sy'n cael eu talu (**ADRAN 2**)

## **BLWCH A** – cyfanswm y taliadau trethadwy gros a wnaed i bob gweithiwr ar y gyflogres, gan gynnwys cyfarwyddwyr sy'n cael eu talu, cyn didyniadau rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025.

Y ffigur hwn yw cyfanswm y flwyddyn ar eich cofnodion cyflogres y byddwch wedi'i gyflwyno i CThEF.

### Dylai hyn gynnwys:

- Pob taliad TWE i staff gan gynnwys cyfarwyddwyr sy'n gweithio, staff gweinyddol a chlerigol, ac unrhyw staff sydd wedi gadael.

### Peidiwch â chynnwys:

- Pensiynau
- Tyniadau partneriaid ac unig fasnachwyr
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC) y cyflogwr
- Difidendau
- Taliadau i weithwyr hunangyflogedig, is-gontractwyr neu staff asiantaeth.

Os na wnaethoch daliadau i weithwyr, rhowch '**0**' ym **MLWCH A** A rhowch reswm dros y sero ar y gyflogres yn y gwagle.

Os ydych yn gwmni cyfyngedig, mae cyfarwyddwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd yn 'gyflogeion' yn eich cwmni, ac mae'n rhaid eu cynnwys ym **MLWCH A**. Os nad yw'r cyfarwyddwyr yn cael eu talu, cofiwch ddweud wrthym yn eich rheswm dros y sero ar y gyflogres pam nad ydynt wedi cymryd cyflog drwy TWE – e.e. dim ond difidendau y mae'r cyfarwyddwyr yn eu cymryd, neu mae'r cyfarwyddwyr yn cael incwm o ffynhonnell arall.

## **BLWCH B** – Nifer cyfartalog y cyflogeion ar y gyflogres.

Dylai hyn gynnwys:

- Yr holl staff sydd wedi'u cynnwys ym **MLWCH A**. Dylid cyfrif staff rhan-amser fel ffracsiynau priodol o weithwyr amser llawn.

**Sganiwch y cod QR am fideo canllaw**


I gael help i lenwi eich Ffurflen Lefi, ffoniwch 0344 994 4455 neu danfonwch e-bost at levy.grant@citb.co.uk




# **Cyn dychwelyd eich Ffurflen Lefi** atom, sicrhewch eich bod wedi:

- Ysgrifennu symiau mewn punnoedd cyfan yn unig, gan anwybyddu ceiniogau
- Rhoi ‘0’ lle bo’r gwerth yn sero
- Cynnwys cyflogau eich cyfarwyddwyr ym MLWCH A, os yw’ch busnes yn gwmni cyfyngedig
- Rhoi rheswm os ydych wedi datgan dim cyflogres ym MLWCH A
- Cwblhau BLWCH F os ydych chi wedi didynnu treth ar gyfradd o 30% oddi ar rai is-gontractwyr, neu bob un ohonynt, sy’n cael eu talu drwy CIS.

# Taliadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) (**ADRAN 3**)

**BLWCH C** – Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd gan is-gontractwyr a gafodd eu talu drwy CIS rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025.

Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio 'cyfanswm y dreth a ddidynnwyd' o bob un o'r ffurflenni contractwyr ar-lein/CIS300 misol at ei gilydd.

**BLWCH D** – Cyfanswm yr **holl** daliadau (cyn didyniadau) i **bob** is-gontractwr a dalwyd drwy CIS rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025.

Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio 'cyfanswm y taliadau a wnaed (nid yw'n cynnwys TAW)' o bob ffurflen contractwyr ar-lein/CIS300 misol at ei gilydd.

**Ffurflen fisol – Argraffiad**

**Ffurflen Fisol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 5ed Mai 2024**
Cyflwynwyd y ffurflen fisol hon ar 12/05/2024
Eich IRmark yw:
Nifer yr is-gontractwyr: 4

| Enw | Rhif dilysu | Cyfanswm y taliadau a wnaed (nid yw'n cynnwys TAW) | Cost deunyddiau (y talwyd amdano gan yr is-gontractwyr) | Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd |
|---|---|---|---|---|
| 123 Building Services Ltd | VL15455532 | 1,000.00 | 0.00 | 200.00 |
| 456 Electircals Ltd | VL15455539 | 5,000.00 | 0.00 | 0.00 |
| Cat Tooth Roofing Ltd | VL15455533 | 3,500.00 | 2,000.00 | 0.00 |
| Steve Taylor | VL15455554 | 1,600.00 | 600.00 | 300.00 |
| | **Cyfanswm** | **11,100.00** | **2,600.00** | **500.00** |

**BLWCH D** **BLWCH C**

Os nad ydych chi wedi gwneud unrhyw daliadau drwy Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS), rhowch '**0**' ym MLYCHAU **C** a **D** a symudwch ymlaen yn syth i'r adran nesaf.

**Sganiwch y cod QR am fideo canllaw**

# A ydych wedi didynnu treth ar gyfradd o 30% oddi wrth rai neu bob un o'r is-gontractwyr a dalwyd drwy CIS?

**'Nac ydw'** – ewch yn syth i'r adran nesaf.

**'Ydw'** – dylech gwblhau **BLWCH F**, gan nodi eich taliadau i bob is-gontractwr trethadwy llai deunyddiau.

### Pam mae BLWCH F yn bwysig?

Mae cyfrifiad y Lefi a gymhwyswyd i FLWCH C yn gweithredu ar y sail bod pob is-gontractwr wedi'i drethu ar gyfradd o 20%. Os cafodd rhai neu bob un o'ch is-gontractwyr eu trethu ar gyfradd o 30% ac nad ydych yn cwblhau BLWCH F yna bydd eich Asesiad Lefi yn uwch nag y dylai fod.

# Cyfrifo **BLWCH F** – eich taliadau i is-gontractwyr trethadwy, llai deunyddiau.

I gyfrifo'r ffigur hwn, dewch o hyd yn gyntaf i'r llinellau ar eich ffurflenni contractwyr ar-lein/CIS300 misol lle didynnwyd treth, sef lle nad yw 'cyfanswm y dreth a ddidynnwyd' yn sero, fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

**Ffurflen Fisol - Argraffiad**

**Ffurflen Fisol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 5 Mai 2024**

Cyflwynwyd y ffurflen hon ar 12/05/2024

Eich IRmark yw:

Nifer yr is-gontractwyr: 4

| Enw | Rhif dilysu | Cyfanswm y taliadau a wnaed (nid yw'n cynnwys TAW) | Cost deunyddiau (y talwyd amdano gan yr is-gontractwyr) | Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|
| 123 Building Services Ltd | VL15455532 | 1,000.00 | 0.00 | 200.00 | ✓ Treth a ddidynnwyd heb gostau deunyddiau – dylech ei chynnwys ym MLWCH F |
| 456 Electricals Ltd | VL15455539 | 5,000.00 | 0.00 | 0.00 | X Treth heb ei didynnu – Peidiwch â'i chynnwys ym MLWCH F |
| Cat Tooth Roofing Ltd | VL15455533 | 3,500.00 | 2,000.00 | 0.00 | X Treth heb ei didynnu – Peidiwch â'i chynnwys ym MLWCH F |
| Steve Taylor | VL15455554 | 1,600.00 | 600.00 | 300.00 | ✓ Treth a ddidynnwyd heb gostau deunyddiau – Dylech ei chynnwys ym MLWCH F |
| | **Totals** | **11,100.00** | **2,600.00** | **500.00** | |

**Sganiwch y cod QR am fideo canllaw**

Nawr adiwch 'cyfanswm y taliadau a wnaed (nid yw'n cynnwys TAW) o'r llinellau hyn at ei gilydd a thynnu'r 'cost deunyddiau (talwyd gan bob is-gontractwr)' o'r llinellau hyn.

| **Cyfanswm y taliadau a wnaed (nid yw'n cynnwys TAW)** £1,000 + £1,600 = £2,600 | – | **Cost deunyddiau (y talwyd amdano gan yr is-gontractwyr)** £600 | = | **BLWCH F** £2,000 |
|---|---|---|---|---|